

1 Mawrth 2018
I'w ryddhau ar unwaith
DATGANIAD I'R WASG

Cyhoeddi'r artistiaid cyntaf am Expo Gwerin Lloegr Hydref 18-21 2018

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, rydyn ni'n hynod o gyffrous i gyhoeddi enwau'r pedwar artist o Gymru - ein partner rhyngwladol yn 2018 - a fydd yn arddangos yn Expo Gwerin Lloegr (EEx) a Gŵyl Werin Manceinion!

Partneriaeth Ryngwladol Cymru

Bob blwyddyn yn EEx, rydym yn rhoi sylw arbennig i wlad neu diriogaeth arall. Eleni, gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru, rydym wrth ein bodd yn cyflwyno pedwar o'r artistiaid gorau yng Nghymru ynghyd â thua deugain o artistiaid o Loegr yn arddangos yn y digwyddiad.

Cymru yw ein partner rhyngwladol a chyflwynir hynny drwy bartneriaeth rhwng Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, trac a Theatr Mwldan dan faner Cerdd Cymru:Music Wales a nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

9bach

Er eu bod wedi eu hysgrifennu a'u canu yn Gymraeg a'u trefnu yn y traddodiad werin, mae'r deg cân ar Tincian, albwm diweddaraf 9bach (y mae naw ohonynt yn gyfansoddiadau o waith Lisa Jên ei hun), yn defnyddio elfennau o dyb a roc hefyd, gan arddel dull anghonfensiynol a rhyngwladol at ffurf, sy'n adlewyrchu golwg 9Bach ohonynt eu hunain fel rhyngwladolwyr. Maent am fynd â phrofiad a diwylliant y gogledd allan at gynulleidfa ehangach, ac maent yn enwi albwm hynod lwyddiannus Super Furry Animals, *Mwng* fel ysbrydoliaeth. Cymysgedd atmosfferaid, atgofus ac emosiynol o'r traddodiad gwerin a dylanwadau cyfoes yw ffrwyth hyn. Gan adeiladu ar seindarlun dwfn, sydd bron â'ch amgylchynu, mae'r caneuon yn mynd â chi at galon y dirwedd a'r emosiynau y mae'n eu sbarduno.

"Mae cerddoriaeth 9Bach yn llawn rhagoriaeth; cydbwysedd o felancoli myfyriol a theimlad ysgafn breuddwydiol." - Line Of Best Fit

<http://www.9bach.com/>

[[Images here](#)]

Alaw

Band o dri cherddor blaenllaw â chyfoeth o brofiad sy'n rhannu angerdd at gerddoriaeth draddodiadol Cymru yw Alaw. Dim ots a ydynt yn datgelu gemau prin neu'n ailwampio alaw hoff, maent yn trin eu cerddoriaeth â dheurwydd a sensitifrwydd sy'n hollol gyfareddol. O gyfuno hyn â chyfansoddi grymus ac alawon gwreiddiol, ceir profiad cerddorol a fydd yn aros gyda'r gwrandäwr ymhell ar ôl i'r gyngerdd ddod i ben. Mae gan Oli Wilson-Dickson, Jamie Smith a Dylan Fowler hanes hir o gydweithio, gan rannu prosiectau fel The Devil's Violin, Szapora a The Ian McMillan Orchestra. Mae Oli a Jamie'n adnabyddus ar draws y byd gwerin fel rheng flaen Mabon Jamie Smith. O ganeuon cyffrous i jigiau bywiog - maent yn cyfleu eu cerddoriaeth â hiwmor hamddenol a natur wirioneddol hoffus sy'n hollol heintus.

"Gwirioneddol hynod! Hudolus..." "Grym diamau!" - Frank Hennessey, BBC Radio Wales

<http://www.alaw-band.com/>

[Images in dropbox [here](#)]

Catrin Finch a Seckou Keita

Mae'r cydweithrediad di-ail yma rhwng dau gerddor anturus a meistrolgar, y delynores Gymreig Catrin Finch a'r chwaraewr Kora o Senegal, Seckou Keita, wedi ennill clod mawr a gwobrau di-ri. Dau

berfformiwr bendigedig â dawn gerddorol o safon ryngwladol. Gan dynnu'n ddwfn ar eu traddodiadau amrywiol eu hunain a'u trawsnewid trwy synergedd hynod, mae Catrin a Seckou wedi meithrin enw heb ei ail am eu perfformiadau anhygoel. Yn dilyn llwyddiant ysgubol eu halbwm cyntaf, Clychau Dibon, nôl yn 2013, byddant yn lansio eu hail albwm 'SOAR' yn Ebrill 2018. Mae'r albwm yn ehedeg fry ar adenydd y gwalch, yr aderyn ysglyfaethus ysblennydd a ddychwelodd i Gymru'n ddiweddar ar ôl canrifoedd o absenoldeb. Aderyn yw hwn sy'n hedfan 3,000 o filltiroedd o arfordir Gorllewin Affrica i aberoedd Cymru bob blwyddyn, gan ehedeg fel cerddoriaeth a breuddwydion ar daith reddfodol ac epig o ddycnuch eithriadol dros ffiniau o law dyn.

“Cywrain, arallfydol a hudol, pas-de-deux coeth... hynod” - Neil Spencer, Cylchgrawn UNCUT
★★★★★

<https://www.catrinfinchandseckoukeita.com/>

[Images in dropbox [here](#)]

Gwyneth Glyn

Er bod ei thraed yn gadarn ar dir Eifionydd, mae Gwyneth bob amser yn edrych tua gorwelion pell. Fel bardd, cantores a dramodydd, mae'n ei gweld ei hun fel artist-anturwraig sy'n ffynnu ar arbrofi gyda gwahanol ffurfiau. Yn ei chasgliad diweddaraf o ganeuon, *Tro*, mae Gwyneth yn cofleidio ei holl ddylanwadau a phrofiadau diweddar. Casgliad yw hwn sy'n olrhain y daith nôl at ei gwreiddiau - o Gaerdydd, lle bu'n byw am bum mlynedd, yn ôl i'w chynefin yn Eifionydd yn y gogledd; siwrnai'r galon o'r tywyllwch i'r goleuni, a siwrnai'r enaid o anialwch pell ac estron i lesni ffrwythlon y lle y mae'n perthyn iddo.

“Mae symrlwydd iaith a delweddaeth i'w geiriau: dyma fardd sy'n gallu gadael geiriau a delweddau yn crogi yn y cof.... Mae ganddi deimlad coeth am grefft cyfansoddi yn ogystal ag am wynt, coed a thirwedd Cymru sy'n bwydo ei cherddoriaeth a'u hemosiwn.” – Frazer Cains, LWCLI

<http://gwynethglyn.com/>

[Images in dropbox [here](#)]

Cyhoeddi artistiaid cyntaf Gŵyl Werin Manceinion 2018

Ynghyd â'r pedwar artist yma, rydyn ni'n falch o gyhoeddi enwau'r perfformwyr cyntaf o Loegr sydd wedi cadarnhau y byddant yn perfformio yng Ngŵyl Werin Manceinion.

Billy Bragg

Mae llywodraethau'n dod i rym ac yn ei golli grym, mae ffasiwn yn mynd a dod, mae sêr pop yn dod i'r brig, ac yn colli ffafr gyda'r cyfryngau orïog, ac mae Billy Bragg yn addasu i oroesi. Yr un yw ei elynion i bob pwrpas: gwleidyddion llwfr, corfforaethau creulon, ac amrywiaeth o bobl hiliol, ffasgaidd, bwlls, adweithwyr a phobl â gwallt llipa. Areithiwr, diddanwr, cynhyrfwr, negodwr, pamffledwr, y 'bardd trwynfawr o Barking', mae Billy Bragg yn bob math o bethau. Fel cyfrannwr cyson at y drafodaeth genedlaethol fel pyndit teledu a cholofnydd papur newydd, mae'n parhau i hodi ei sgrifbin fel llenor, ac agorodd ei lyfr cyntaf, y traethawd pwyllog, eang ar hunaniaeth Seisnig, *The Progressive Patriot*, fyd newydd sbon o bosibiliadau i ddyn sydd byth yn rhoi'r gorau i herio'r holl drafferthion sydd yn y byd. Dim ots ai gweithwyr undebol, diwygiadau cyfansoddiadol, taliadau bonws bancwyr, rhyfeloedd

anghyfreithlon neu rywun yn meddiannu tŷ bach symudol mewn ffordd annemocrataidd gefn llwyfan mewn gŵyl sydd dan sylw, gallwch fod yn sicr y bydd Billy Bragg yn cadw eich cefn.

<http://billybragg.co.uk>

[Images in dropbox [here](#)]

Coven

Coven yw tri o actau benywaidd gorau, mwyaf aruthrol a di-flewyn-ar-dafod sin werin Prydain; y ddeuawd harmonig persain, a ffefrynnau BBC6 Music O'Hooley & Tidow, Lady Maisery hudolus a gyrhaeddodd rownd derfynol Gwobrau Gwerin BBC Radio 2, a'r gyfansoddwraig, y weithredwraig a'r perfformwraig o Gaer-lŷr, Grace Petrie. Yn 2014, daeth Belinda O'Hooley, Heidi Tidow, Rowan Rheingans, Hannah James, Hazel Askew a Grace Petrie at ei gilydd i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth gyda chyfres o dair cyngerdd. Ers hynny, mae eu taith wedi ehangu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac yn 2017 rhyddhawyd 'Unholy Choir'; sef EP o'r caneuon y mae'r grŵp wedi cydweithio arnynt. Dewch i weld y menywod calonnog, hwyliog a gafaelgar hyn sy'n procio'r meddwl yn perfformio'n unigol a gyda'i gilydd ar un llwyfan.

<https://www.facebook.com/COVENMUSIC/>

[Images on dropbox [here](#)]

The Wilsons

Mae harmoni lleisiol bendigedig a grymus y Teulu Wilson o Billingham, Teesside wedi bod yn diddanu clybiau a gwyliau yn ers dros y 40+ o flynyddoedd. Mae'r brodyr yn canu caneuon traddodiadol a lled-draddodiadol â dirnadaeth ddog, llawenydd a hiwmor. Mae eu hedmygwyr yn doreithiog, yma ym Mhrydain a thramor, wrth iddynt barhau i syfrdanu gyda'u perfformiadau byw deinamig. Maent yn amlwg o amryddawn yn y ffaith eu bod wedi gweithio gyda Cherddorfa Sinffonia Frenhinol y Gogledd, Band Kathryn Tickell a Chantorion y BBC, mewn perfformiad yn Neuadd Frenhinol Albert yn Awst 2011, a ddenodd ganmoliaeth eang ar draws y cyfryngau cenedlaethol.

<http://www.thewilsonfamilyalbum.co.uk/>

[Image [here](#)]

Fideo newydd sbon

Rydyn ni wedi creu fideo hyrwyddo newydd sbon. Gobeithio'i bod yn rhoi blas ar beth yw Expo Gwerin Lloegr, pam ei bod yn bodoli a beth i'w ddisgwyl gan achlysur 2018.

<https://vimeo.com/254521785>

Diolch i Ben Jacobson am ei holl waith caled yn tynnu'r cyfan ynghyd.

AM EFX

Expo Gwerin Lloegr yw sioe arddangos flynyddol y diwydiant ar gyfer cerddoriaeth werin, gwreiddiau ac acwstig. Mae'n agored i hyrwyddwyr a rhaglenwyr cerdd y DU a rhai rhyngwladol sy'n dymuno bwcio cerddoriaeth Seisnig ar gyfer eu gwyliau, canolfannau ac achlysuron, a rhai dethol o'r diwydiant hefyd. Fe'i cynhelir rhwng Hydref 18 – 21 2018, y penwythnos cyn WOMEX, yng Nghanol Manceinion mewn partneriaeth â Gŵyl Werin Manceinion, ac mae'n dangos gwaith tua phedwardeg o artistiaid newydd, rhai sydd wedi dechrau ennill eu plwyf a rhai blaenllaw mewn canolfannau â chapasiti rhwng 100-1,000.

Cysylltiadau a chwestiynau: tom@englishfolkexpo.com

Gwefan: www.englishfolkexpo.com



MWLDAN



HOME

So it is.



Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND